

Datganiad Llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Beth yw'r datganiad llesiant?

Mae gan bawb yr hawl i lesiant ac mae gan bawb gyfrifoldeb am ei lesiant ei hun, ond mae angen help ychwanegol ar rai pobl i gyflawni hynny. Mae'r datganiad yn disgrifio agweddau ar lesiant sy'n ymwneud â phob rhan o fywyd unigolyn. Daw llawer o asiantaethau ynghyd o'r sectorau i gyd i gefnogi pobl i sicrhau llesiant. Mae'n golygu rhoi llais cryfach i bobl a mwy o reolaeth iddynt dros eu bywydau, a sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau cyflawn.

Beth gaiff ei gynnwys yn y datganiad?

Mae'r datganiad yn disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol y mae angen eu cyflawni er mwyn sicrhau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Pan fydd pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn gweithio ar y cyd â'r gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid, gallant ddisgwyl y byddant yn cyflawni canlyniadau llesiant personol sy'n adlewyrchu'r canlyniadau llesiant cenedlaethol.

Sut caiff y datganiad ei ddefnyddio?

Caiff y datganiad ei ddefnyddio i amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Caiff ei ddefnyddio i feithrin dealltwriaeth gyffredin o lesiant ymhlith yr holl asiantaethau, er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r un canlyniadau pwysig ar gyfer unigolion.

Beth nesaf?

Mae'r datganiad llesiant yn rhan o fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r datganiad llesiant hwn, ac yn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan fydd y Ddeddf yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â

Yr Is-adran Arweinyddiaeth a Strategaeth, Llywodraeth Cymru
sswimplementation@cymru.gsi.gov.uk 029 2082 5833

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth (dogfen weithio): <http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy>

Fy Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol <http://mylocalhealthandsocialcare.gov.wales/#/cy>



Beth mae lles yn ei olygu	Canlyniadau lles cenedlaethol	Beth fyddwn yn ei fesur
Sicrhau hawliau a hawlogaethau Hefyd yn achos oedolion: Rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd	Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ac yn eu defnyddio er mwyn fy helpu i sicrhau fy lles Gallaf gael gfael ar y wybodaeth gywir, pan fydd ei hangen arnaf, yn y ffordd rwyf am ei chael a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella fy lles Caf fy nhrin ag urddas a pharch ac rwy'n trin eraill yn yr un ffordd Caiff fy llais ei glywed a gwrandewir arno Caiff fy amgylchiadau unigol eu hystyried Rwy'n siarad dros of fy hun ac yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd neu mae gennyf rywun a all wneud hynny dros of	A yw pobl yn adrodd bod yr wybodaeth briodol ar gael ar yr adeg briodol A yw pobl yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd a bod pobl yn gwrandao arnynt A yw pobl yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir sy'n effeithio arnynt neu ar fywyd yr unigolyn y maent yn gofalu amdano Bodlonrwydd â'r gofal a'r cymorth a dderbynnir Defnyddio eiriolaeth
Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol Hefyd yn achos plant: Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol	Rwy'n iach ac yn weithgar ac yn gwneud pethau i gadw fy hun yn iach Rwy'n hapus ac yn gwneud pethau sy'n fy ngwneud yn hapus Caf y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl	A yw pobl yn dweud eu bod yn teimlo'n iach yn gorfforol a meddyliol Bodlonrwydd â bywyd A yw pobl yn byw eu bywydau mewn ffordd iach (disgwyliad oes, cael brechiadau yn eu plentynod, gwiriadau deintyddol cyfredol) Datblygiad plant
Diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod	Rwy'n ddiogel a chaf fy amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf gymorth i amddiffyn y bobl sy'n bwysig i mi rhag camdriniaeth ac esgeulustod Caf wybodaeth am sut i leisio fy mhryderon	Faint o niwed ac esgeulustod sy'n digwydd A yw pobl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel
Addysg, hyfforddiant a hamdden	Gallaf ddysgu a datblygu i'm llawn botensial Rwy'n gwneud y pethau sy'n bwysig i mi	Cyraeddiad addysgol allweddol, lefelau rhifydddeg a llythrennedd plant a phobl ifanc Pobl fanc yn cael mynediad at gyfleoedd ôl 16 A yw gofaluwr yn dweud eu bod yn cael eu cefnogi i ofalu Oedolion yn cael mynediad at gyfleoedd dysgu
Cyberthnasau domestig, teuluol a phersonol	Rwy'n perthyn Rwy'n cyfrannu at gydberthnasau diogel ac iach ac yn eu mwynhau	Bodlonrwydd â pherthnasoedd personol Bodlonrwydd â bywyd teuluol Bodlonrwydd â bywyd yn y cartref
Cyfraniad a wneir i gymdeithas	Rwy'n ymgysylltu â'm cymuned ac yn cyfrannu ati Teimlaf fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas	Cymryd rhan mewn cymdeithas
Lles cymdeithasol ac economaidd Hefyd yn achos oedolion: Cymryd rhan mewn gwaith	Rwy'n cyfrannu at fy mywyd cymdeithasol a gallaf fod gyda'r bobl a ddewisaf Nid wyf yn byw mewn tloidi Caf gymorth i weithio Rwy'n cael yr help sydd ei angen arnaf i dyfu i fyny a bod yn annibynnol Caf ofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen hynny arnaf	Pobl yn gweithio ac yn cael cefnogaeth i weithio Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant Tloidi A yw pobl y mae angen gofal arnynt trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei dderbyn A yw pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth wrth ddatblygu'n oedolion
Addasrwydd llefy	Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy helpu orau i sicrhau fy lles	A yw tai'n diwallu anghenion pobl